CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2017 am 10.00 am

YN BRESENNOL

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Tony Flynn, Tony Thomas ac Emrys Wynne

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mr. Simon Cameron, Mr. Dominic Oakes a'r Parch. Martin Evans-Jones

HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Her ar gyfer GwE (PL) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)
Sarah Roberts – Pennaeth Dyniaethau, Ysgol Uwchradd Y Rhyl

MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel. Adlewyrchodd y cadeirydd ar y digwyddiadau trasig diweddar a gofynnodd i aelodau ystyried am funud yr effaith yr oeddent wedi ei gael ar blant a'u teuluoedd.

PWYNT O SYLW

Cytunwyd bod Simon Cameron yn Cadeirio'r cyfarfod.

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs Cate Harmsworth a'r Cynghorydd Joe Welch

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad.

3 CADARNHAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Her ar gyfer GwE (YH) gyda'r aelodau y weithdrefn ar gyfer penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol. Hysbysodd yr YH aelodau y byddai'r Is-Gadeirydd presennol

yn dod yn Gadeirydd fis Hydref ac y byddai penodi Is-Gadeirydd newydd ar y rhaglen fis Hydref.

4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017 (wedi'u cylchredeg yn flaenorol).

NODWYD *yn amodol ar yr uchod, fod cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017, yn cael eu cynnig i'w cymeradwyo fel cofnod cywir yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.*

6 ROL CYSAG

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Her ar gyfer GwE (YH) yr adroddiad (a gafodd ei gylchredeg yn gynharach) oedd yn darparu gwybodaeth ar rôl CYSAG a rôl ei aelodau. Eglurodd yr YH wrth yr aelodau y cyfrifoldeb oedd ar CYSAG yn ymwneud â maes llafur Addysg Grefyddol mewn ysgolion, ei gynnwys a'r modd y caiff ei ddysgu. Hysbyswyd aelodau eu bod yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn, unwaith ymhob tymor ysgol i drafod, monitro, cefnogi ac asesu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Eglurodd yr YH y cefndir o ran addoli ar y cyd mewn ysgolion, dylai pob disgybl dderbyn cyfle i addoli ar y cyd oni bai fod cais gan y rhieni i'w heithrio. Codwyd pryderon ynglŷn â'r gallu i fonitro'r ddarpariaeth o ran addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mynegodd aelodau nad oes gofod digon mawr i addoli ar y cyd mewn ysgolion newydd oedd wedi eu hadeiladu. Hysbyswyd y pwyllgor fod gofod wedi ei neilltuo ar gyfer adlewyrchu neu wedi ei gysegru i bwrpas crefyddol.
Eglurodd yr YH wrth yr aelodau fod Cwricwlwm newydd ar gyfer Addysg Grefyddol i'w gyflwyno ym Medi 2021 ac y byddai aelodau Pwyllgor CYSAG yn monitro a chefnogi gweithredu'r cwricwlwm.
Diolchodd y Cadeirydd i'r YH am yr wybodaeth ar rôl CYSAG a'i aelodau. Galwodd y Cadeirydd ar yr aelodau i gymryd rhan ragweithiol yn y Pwyllgor gan rannu arfer da, profiadau a chefnogi'r YH.

NODWYD *y dylid derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.*

7 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU

Cyflwynodd Ymgynghorydd Her GwE (YH) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi dadansoddiad o Adroddiadau Arolygon Estyn a gyhoeddwyd yn nhymor y gwanwyn.

Eglurodd yr YH mai'r hyn gyflwynir oedd casgliadau'r arolygon a gynhaliwyd mewn 2 ysgol gan mai dyma'r unig wybodaeth a dderbyniwyd gan Estyn. Roedd arolygon wedi eu cynnal yn Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Llanbedr, roedd manylion yn ymwneud â'r ysgolion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a chrynhowyd y manylion

hyn gan yr YH. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y dull sydd wedi ei fabwysiadu gan Estyn ar gyfer arolygu ysgolion yn newid o Fedi 2017. O'r ddau arolwg sydd wedi ei dderbyn gan Estyn, eglurodd yr YH, cafwyd arolwg Ysgol Llanbedr drwy ddefnyddio'r fframwaith arolygu cynharach a'r fframwaith newydd yn Ysgol Uwchradd Dinbych. Eglurodd yr YH wrth yr aelodau fod y fframwaith arolygu newydd wedi ei wneud o 5 ardal eglur, o'r wybodaeth yn y fframwaith arolygu newydd gellid gweld cyfeiriad cyfyngedig i eitemau perthnasol i CYSAG. Eglurodd yr YH fod Estyn wedi nodi mai dim ond os na weithredir Addoli ar y Cyd y bydd yn cyfeirio'n uniongyrchol at hynny o fewn arolygon.

Mynegodd yr YH pa mor bwysig oedd i bwyllgor CYSAG fonitro'r fframwaith newydd o ganlyniadau'r arolygon a wnaed.

NODWYD *y dylid derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.*

8 YMARFERYDD ARWEINIOL – CEFNOGI'R MANYLEBAU TGAU NEWYDD

Cyflwynodd Ymgynghorydd Her GwE (YH) Sarah Roberts, Pennaeth Dyniaethau yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl ac Ymarferydd Arweiniol Hwb Conwy a Sir Ddinbych.
Cyflwynodd Sarah Roberts, Ymarferydd Arweiniol (YA) dros addysg grefyddol yng Nghonwy a Sir Ddinbych, fentrau i'r pwyllgor sydd mewn grym i gyflawni manylion diwygiedig Astudiaethau Crefyddol TGAU. Eglurodd yr YA gefndir y gwaith roedd yr Ymarferwyr Arweiniol wedi bod yn ymwneud ag ef.
Roedd gwaith wedi ei wneud gydag ysgolion ar draws y rhanbarth i gefnogi staff a rhannu arferion da.
Trafododd yr YA y gwahaniaethau rhwng cwrs Llawn a chwrs byr arholiadau Addysg Grefyddol TGAU a sut y caiff modiwlau pob un eu cyfrif.
Hysbysodd yr YA aelodau fod cynadleddau CBAC a gynhaliwyd ym Mangor ac Ewloe wedi mynegi nifer o bryderon gan ysgolion yn ymwneud â'r manylion newydd. Datgelodd yr YA mai'r prif bryder a leisiwyd yn y cyfarfod oedd diffyg adnoddau ac yn benodol nad oes gwerslyfr ar gael i gefnogi staff addysgu na disgyblion. Hefyd gofynnwyd yn y gynhadledd am ddarparu canllawiau ar elfen Ddyneiddiol y maes llafur i gynorthwyo'r dysgu.
Cynhaliwyd cynhadledd pellach gan GwE ym mis Mawrth. Rhoddodd yr YA adolygiad cryno o'r hyn drafodwyd yn y gynhadledd oedd yn cynnwys gwybodaeth ar asesu, y dull Dyneiddiol a'r camau nesaf i'w harchwilio gan ymarferwyr Hwb. Croesawyd yr adborth gan y 60 o athrawon a fynychodd y gynhadledd a rhoddwyd adborth cadarnhaol. Mynychodd yr YA gyfarfod Hwb oedd yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd a datblygu cysyniadau i gefnogi ei gilydd. Dywedodd yr YA wrth y pwyllgor mai trwy ddefnydd negeseuon e-bost y cyfathrebir ar hyn o bryd, ac ym Medi byddai porth newydd yn cael ei weithredu i alluogi ysgolion i gael mynediad i gymorth a chefnogaeth. Hysbysodd yr YA y pwyllgor ynglŷn â'r cyfarfod Hwb nesaf yn Hydref 2018 ac y byddai'r camau nesaf yn canolbwyntio ar ddatblygu map cysyniadau, parhau i rannu gwybodaeth ac edrych ar drefnu cynhadledd arall.
Roedd pryderon a godwyd yn y cynadleddau a chyfarfodydd Hwb wedi eu hadleisio gan y pwyllgor CYSAG. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn angenrheidiol i lunio llythyr i CBAC a Llywodraeth Cymru yn mynegi'r pryderon a deimlwyd gan CYSAG Sir Ddinbych. Diolchodd y Cadeirydd i Sarah Roberts am fynychu'r cyfarfod ac am ddarparu'r wybodaeth er mwyn i'r aelodau drafod ac ystyried. Gofynnodd y Cadeirydd

ar i CYSAG fonitro gweithredu'r manylion newydd a pharhau i gyfathrebu gyda'r ymarferydd Hwb.

PENDERFYNWYD *- derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys. Drafftio llythyr i CBAC a Llywodraeth Cymru yn mynegi pryderon CYSAG yn ymwneud â'r manylion newydd ar gyfer y TGAU Addysg Grefyddol.*

9 DIWEDDARIAD - CYDWEITHIO YSGOL I YSGOL

Briffiodd Ymgynghorydd Her GwE (YH) aelodau ar gefndir y gweithgor cydweithio ysgol i ysgol. Eglurodd yr YH wrth aelodau nad oedd unrhyw gyfarfod gan y grŵp wedi ei gynnal yn ddiweddar. Roedd gwaith wedi ei wneud i gynhyrchu dogfen yn y flwyddyn academaidd newydd i gynorthwyo ysgolion gydag Addysg Grefyddol.

NODWYD *bod y Pwyllgor yn derbyn y diweddariad ar lafar.*

10 CCYSAG

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2017 yn Sir Fynwy (wedi'u cylchredeg yn flaenorol) er gwybodaeth i'r aelodau. Cododd aelodau bryderon y byddai Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu fel ychwanegiad at bynciau eraill. Mynegodd Ymgynghorydd Her GwE (YH) bwysigrwydd mynegi pryderon aelodau CYSAG yng nghyfarfodydd CCYSAGC ac anogodd aelodau i fynychu cyfarfod nesaf CCYSAGC i sicrhau fod pryderon yn cael eu clywed a'u hateb.

Eglurodd yr YH wrth y Pwyllgor fod angen i CYSAG Sir Ddinbych enwebu ar gyfer penodi Is Gadeirydd ar gyfer Cymdeithas CYSAG Cymru. Dadansoddodd yr YH yr enwebiadau (wedi'u cylchredeg yn flaenorol) gydag aelodau. Pleidleisiwyd y byddai Gill Vaisey yn cael ei henwebu am swydd yr Is Gadeirydd ar gyfer CCYSAGC gan aelodau CYSAG Sir Ddinbych.

NODWYD *y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2017.*

PENDERFYNWYD *y byddai Gill Vaisey yn cael ei henwebu gan aelodau CYSAG Sir Ddinbych i fod yn Is Gadeirydd CCYSAGC.*

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych wedi ei drefnu i'w gynnal am 10am Dydd Gwener 13 Hydref, 2017 yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45am